



CARDIFF

---

CAERDYDD

---

**POLISI GWEITHREDOL A CHANLLAWIAU AR DDEFNYDDIO  
GWYLIADWRIAETH A GYFARWYDDIR DAN DDEDDF RHEOLEIDDIO  
PWERAU YMCHWILIO 2000**

**Mai 2013**

## **POLISI GWEITHREDOL A CHANLLAWIAU AR DDEFNYDDIO CUDDWYLIO A GYFARWYDDIR AC AWDURDODI DAN DDEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIO 2000, fel y'i diwygiwyd (RIPA)**

### **1. Beth yw cuddwyllo?**

Yn ôl RIPA, cuddwyllo yw:

- *monitro, arsylwi neu wrando ar bobl, eu symudiadau, eu sgysiau neu weithgareddau neu ddulliau cyfathrebu eraill;*
- *cofnodi unrhyw beth a gaiff ei fonitro, ei arsylwi neu ei glywed wrth guddwyllo;*
- *gwyliadwriaeth gan, neu gyda chymorth, dyfais wyllo.*

Math o wylidwriaeth yw cuddwyllo, a wneir i sicrhau nad yw'r bobl sy'n cael eu harsylwi neu eu monitro yn ymwybodol bod hynny'n digwydd.

### **2. Pryd y gallai'r Cyngor guddwyllo?**

Mae'r Cyngor yn gorfodi'r gyfraith bob dydd. Gwneir hyn yn bennaf mewn ffordd weladwy. Ond bydd adegau pan fydd angen i swyddogion y Cyngor guddwyllo i gyflawni eu dyletswyddau. Er enghraifft, gallai Safonau Masnach guddwyllo masnachwyr i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion cyfreithiol.

Mae RIPA yn fframwaith ar gyfer rheoleiddio'r defnydd o'r pwerau ymchwilio hynny gan sicrhau bod unrhyw weithgareddau cuddwyllo'n gyson â dyletswyddau awdurdodau cyhoeddus dan y Ddeddf Hawliau Dynol. Dan y Ddeddf, mae cuddwyllo'n gyfreithlon os rhoddwyd awdurdodiad priodol, a bod person yn gweithredu'n unol â'r awdurdodiad hwnnw. Mae hyn yn bwysig er mwyn i'r Cyngor allu dangos ei fod wedi ymddwyn yn unol â'r gyfraith, a'i fod wedi casglu tystiolaeth mewn ffordd briodol, os bydd yn rhan o unrhyw achos Llys.

Rhaid i'r Cyngor fod yn fodlon bod:

- *Unrhyw wylidwriaeth yn cael ei chyflawni mewn perthynas â swyddogaeth statudol y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdani.*
- *Unrhyw ymyriad yn gallu cael ei gyfiawnhau dan y gyfraith.*
- *Yr wylidwriaeth yn cael ei hawdurdodi'n briodol yn unol â'r polisi hwn, a'i bod, o ganlyniad, yn sail i gyfiawnhau unrhyw broses sy'n ymyrryd â Hawliau Dynol unigolyn.*

### 3. Beth yw Gwylidwriaeth a Gyfarwyddir?

Mae Gwylidwriaeth a Gyfarwyddir yn guddwyllo a gyflawnir:

- at ddibenion ymchwiliad penodol neu ymgyrch benodol;
- mewn ffordd sy'n debygol o gaffael gwybodaeth breifat am unigolyn (p'un a ydyw wedi'i nodi'n benodol at ddibenion yr ymchwiliad neu'r ymgyrch ai peidio);
- heb fod dan fantell ymateb uniongyrchol i ddigwyddiadau neu amgylchiadau lle na fyddai'n rhesymol ymarferol i geisio awdurdodiad dan y Rhan hon i gyflawni'r wylidwriaeth

### 4. Pryd y gall Swyddogion y Cyngor ddefnyddio Gwylidwriaeth a Gyfarwyddir?

Gall swyddogion y Cyngor ddefnyddio gwylidwriaeth a gyfarwyddir i atal a/neu ganfod troseddu, pan fo'r drosedd yn un sydd â dedfryd yn y ddalfa o 6 mis neu fwy, ac ar gyfer ymchwilio i drosedd sy'n ymwneud â gwerthu alcohol a thybaco'n anghyfreithlon i unrhyw un dan 18 oed. Ystyrir bod troseddau o'r fath yn bodloni'r "trothwy troseddu".

Os na fodlonir yr amodau hyn, ni all y Cyngor guddwyllo dan RIPA.

Gelwir gwylidwriaeth sy'n cael ei chynnal ar safle preswyl neu mewn cerbyd preifat lle mae rhywun yn gwisgo dyfais wylidwriaeth yn y safle neu'r cerbyd yn Wylidwriaeth Ymwthiol. Ni awdurdodir unrhyw un o swyddogion y Cyngor i gymeradwyo awdurdodiad ar gyfer Gwylidwriaeth Ymwthiol dan RIPA.

Nid yw'r ffaith nad oes modd awdurdodi gwylidwriaeth ymwthiol dan RIPA o reidrwydd yn golygu na ellir cyflawni'r gweithrediadau hyn dan y gyfraith, a dylid ceisio cyngor swyddog awdurdodi cyn ystyried unrhyw wylidwriaeth o'r fath. [\(cyfeirnod rhif achos: IPT/11/129/CH; IPT/11/133/CH & IPT/12/72/CH\)](#)

Golyga'r newidiadau a gyflwynwyd gan OS 2012:1500 ac Adrannau 37 a 38 Deddf Diogelu Rhyddid 2012 fod angen cymeradwyaeth farnwrol cyn cyflawni unrhyw waith cuddwyllo.

***Drwy gydol y canllaw hwn mae'r gair 'awdurdodi' yn cyfeirio at ganiatâd mewnol i ddwyn y broses ymlaen. Mae'r gair 'cymeradwyaeth' yn ganiatâd barnwrol sy'n cyfreithloni'r cais.***

## 5. Sut mae gwneud cais am awdurdodiad?

Rhaid gwneud cais am awdurdodiad ar gyfer Gwyliadwriaeth a Gyfarwyddir yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen gais sydd ar y Fewnrwyd (4.c.199a). Bydd yn cynnwys y canlynol:

- Y weithred i'w hawdurdodi;
- Enwau'r bobl fydd yn destun yr wyliadwriaeth a gyfarwyddir, os ydynt yn hysbys;
- Cyfrif o'r ymchwiliad neu'r weithred;
- Eglurhad o'r technegau cuddwylio a ddefnyddir *D.S. defnydd o deledu cylch cyfyng (gweler adran 10 isod)*
- Cadarnhad mai bwriad y weithred arfaethedig yw atal neu ganfod trosedd
- Datganiad yn amlinellu pam fod gwyliadwriaeth a gyfarwyddir yn gymesur â'r nodau y mae'n ceisio eu cyflawni;
- Eglurhad o'r wybodaeth y bwriedir ei chael o ganlyniad i'r awdurdodiad;
- Aseiad o'r posibilid ar gyfer ymyriad anuniongyrchol, h.y. ymyrryd â phreifatrwydd unigolyn/unigolion ond am y sawl a oruchwylir, ac aseiad o'r risg y bydd ymyriad neu amhariad o'r fath yn digwydd;
- Aseiad o'r tebygolrwydd o gael unrhyw ddeunydd cyfrinachol a sut y caiff ei drin
- Pan geisir awdurdodiad ar frys, y rhesymau pam fod yr achos yn un brys.

## 6. Cymeradwyo'r defnydd o Wyliadwriaeth a Gyfarwyddir

Mae'r Ddeddf, fel y'i diwygiwyd, yn nodi mai'r Swyddogion Awdurdodi yw'r Cyfarwyddwr, y Pennaeth Gwasanaeth, y Rheolwr Gwasanaeth neu swyddog cyfatebol. Yng Nghaerdydd, ystyr hyn yw aelod o'r uwch dîm reoli. Fodd bynnag, mae'r canlynol yn bobl a fydd, yn rhinwedd eu swydd, fel arfer ac yn bennaf yn Swyddogion Awdurdodi:

*Pennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio a Chefnogi  
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd  
Cyfarwyddwr Cynorthwyol yr Amgylchedd  
Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid  
Y Prif Weithredwr*

Yn ddelfrydol, ni ddylai'r Swyddog Awdurdodi fod yn gyfrifol am awdurdodi gwyliadwriaeth yn ei faes gweithgarwch ei hun h.y. gweithrediadau neu ymchwiliadau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â meysydd y maent yn uniongyrchol gyfrifol amdanant.

## 7. Beth fydd yn rhaid i'r Swyddog Awdurdodi ei ystyried wrth brosesu awdurdodiad?

Rhaid i Swyddogion Awdurdodi, a swyddogion a awdurdodir i gynnal gwyliadwriaeth a gyfarwyddir, fod yn gyfarwydd â gofynion unrhyw Godau Ymarfer perthnasol a gyhoeddir gan y Swyddfa Gartref.

Gellir ond ystyried awdurdodiad os mai nod y gweithgaredd cuddwylio a gynigir yw atal neu ganfod trosedd. Dylai'r gweithgaredd a gynigir ymwneud â diben penodol sy'n rhan o swyddogaeth statudol, neu graidd, y Cyngor. Ni nodir y cysyniad o swyddogaethau statudol neu graidd awdurdodau lleol yn y Ddeddf, ond nodir canllawiau yn IPT

***IPT/03/32/H.*** Nid yw'n hawdd diffinio'r cysyniad yn gyffredinol, na chynnig prawf cyffredinol ar gyfer gwahaniaethu rhwng y swyddogaethau craidd a swyddogaethau arferol awdurdodau cyhoeddus. Fodd bynnag, mae RIPA yn cydnabod gwahaniaeth o'r fath, heb gyfeirio'n uniongyrchol ato, o ran natur y sail y gellid ei defnyddio i awdurdodi'r Cyngor i gynnal gwyliadwriaeth a gyfarwyddir dan RIPA h.y. i atal neu ganfod trosedd.

I ganiatáu awdurdodiad, rhaid bod y Swyddog Awdurdodi'n fodlon bod yr wylidwriaeth a gynigir yn ***angenrheidiol*** at ddibenion atal a chanfod trosedd ac yn bodloni'r trothwy troseddu.

Rhaid bod y Swyddog Awdurdodi hefyd yn credu bod yr wylidwriaeth a gynigir yn ***gymesur*** â'r hyn y mae'n ceisio'i gyflawni, a bod unrhyw bosibiliad ar gyfer ***ymyrryd anuniongyrchol*** a'r tebygolrwydd o gaffael unrhyw ***ddeunydd cyfrinachol*** yn cael ei leihau cymaint â phosibl. Rhaid hefyd gyfeirio at y cod ymarfer statudol ar guddwylio.

Rhaid bod cofnod o b'un a gafodd awdurdodiad ei gymeradwyo neu ei wrthod, pwy benderfynodd arno ac ar ba amser a dyddiad. ([ffurflen 4.c.199b](#)) Gall gwasanaethau ddefnyddio ystod o dechnegau ac offer i guddwylio. Rhaid i wasanaethau sicrhau bod y defnydd o offer cuddwylio'n cael ei reoli'n briodol a rhaid rhoi gwybod i'r Swyddog Awdurdodi o allu technegol offer o'r fath pan gaiff ei ddefnyddio at ddibenion cuddwylio.

*D.S. Rhaid i ddiogelwch y cyhoedd a staff y cyngor fod yn drech na phob ystyriaeth arall. Rhaid i Swyddogion Awdurdodi ystyried trais yn y gwaith, blinder, gweithio unigol ac ati. Lle y bo'n briodol, dylai'r Swyddog Awdurdodi sicrhau bod asesiad risg yn cael ei gynnal cyn awdurdodi cais.*

## 8. Beth yw ystyr “angenrheidiol” yn y cyd-destun hwn?

Mae RIPA yn darparu fframwaith ar gyfer sicrhau nad yw unrhyw weithgareddau gwyliadwriaeth yn amharu ar Hawliau Dynol unigolyn. Wrth ystyried a ddylid awdurdodi cais, rhaid i'r swyddog awdurdodi ystyried a yw'r gweithgaredd a gynigir yn **angenrheidiol**.

Nid yw'r ffaith bod trosedd wedi'i chyflawni, neu ar fin cael ei chyflawni, yn golygu o reidrwydd fod cuddwyllo'n angenrheidiol. Rhaid bod angen dirfawr i guddwyllo a rheswm clir drosto. Ni ddylai Swyddogion y Cyngor geisio cael gwybodaeth drwy guddwyllo os nad oes angen y wybodaeth honno ar gyfer ymchwiliad. Gallai fod yn ddefnyddiol ac yn ddifyr iawn cael gwybodaeth am unigolyn penodol, ond os nad yw'n angenrheidiol ni ddylai swyddogion ei cheisio. Mae angen i swyddogion ddangos yr angen ym mhob achos.

## 9. Beth yw ystyr “cymesur” yn y cyd-destun hwn?

Mae cymesuredd yn gysyniad pwysig iawn. Yn syml, cymesuredd yw cydbwysu hawliau dynol yr unigolyn yn erbyn yr angen i guddwyllo i ddwyn ymchwiliad ymlaen i'r cam nesaf. Ni ddylid awdurdodi cais ond ar sail dirifoldeb y drosedd.

Rhaid i unrhyw ymyriad â hawliau unigolyn fod yn briodol a rhaid bod modd ei gyfiawnhau. Rhaid i Swyddog Awdurdodi ystyried nifer o faterion wrth benderfynu ar b'un a yw'r weithred a gynigir yn gymesur. Bwysicaf oll yw'r gred fod gan y Cyngor reswm perthnasol a digonol dros ymyrryd â hawl unigolyn i gael ei barchu, o ran ei fywyd teuluol a'i fywyd preifat.

Os bydd Swyddog Awdurdodi'n penderfynu bod angen cael y wybodaeth ofynnol drwy guddwyllo, ac na ellir ei chael yn rhesymol mewn unrhyw ffordd arall na fyddai'n ymyrryd â phreifatrwydd unigolyn, neu'n ymyrryd yn llai; rhaid dogfennu'n penderfyniad hwnnw'n ofalus a dangos sut mae'r Cyngor wedi gwneud y canlynol:

- Cydbwysu maint a chwmpas y weithred yn erbyn pwysigrwydd a helaethrwydd y drwgweithredu a amheuir
- Dangos y bydd y dulliau a fabwysiedir yn ymyrryd â'r targed ac eraill gyn lleied â phosibl
- Dangos bod y gweithgarwch yn gwneud defnydd priodol o'r ddeddfwriaeth, ac mai dyma'r unig ffordd resymol o gael y canlyniad angenrheidiol
- Ymchwilio i ddulliau eraill o gael y wybodaeth sydd ei hangen a pham na chawsant eu defnyddio

Ni chyfiawnheir ymyrryd os yw'r dulliau a ddefnyddir i gyflawni'r nod yn ormodol ym mhob sefyllfa. Felly, lle cynigir gwyliadwriaeth, rhaid bod cuddwyllo'n cael ei wneud mewn ffordd sy'n cyflawni'r amcan dan sylw, a hynny'n unig; ni chaiff fod yn annheg nac yn fympwyol; ac ni chaiff yr effaith ar y sawl sydd dan sylw fod yn rhy ddifrifol.

Rhaid ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau ei hun; ni fydd yr hyn sy'n gymesur mewn un sefyllfa'n gymesur ym mhob sefyllfa. Mae angen i Swyddogion Awdurdodi sicrhau bod ymgeisydd wedi ystyried ffyrdd eraill o gael y wybodaeth neu'r dystiolaeth ofynnol, megis defnyddio pwerau gwybodaeth trydydd parti, y Rhyngwyd, a ffynonellau eraill.

## **10. Beth yw ystyr “ymyrryd anuniongyrchol”?**

Ymyrryd anuniongyrchol yw pan fydd swyddogion yn cael gwybodaeth am bobl nad ydynt yn gysylltiedig â'r ymchwiliad. Rhaid i Swyddogion Awdurdodi ystyried tebygolrwydd a helaethrwydd ymyriadau anuniongyrchol wrth ystyried cais, a sicrhau bod yr ymgeisydd wedi cynllunio i leihau ymyriadau uniongyrchol. Mae'r canlynol ymhlith y sefyllfaoedd lle gall ymyriadau anuniongyrchol ddigwydd:

- Arsylwi safle busnes, gan arwain at wyllo pobl anghysylltiedig yn mynd a dod
- Yn ystod ymgyrch, arsylwi neu glywed sgysiaau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r ymchwiliad, ac sy'n effeithio ar breifatrwydd eraill.

Mae'n bwysig deall nad yw gwneud rhywbeth yn gyhoeddus yn golygu'n awtomatig nad yw'n breifat. Mae'r cyhoeddus yn gwybod bod awdurdodau cyhoeddus yn defnyddio teledu cylch cyfyng (CCTV) i atal troseddu. Lle defnyddir systemau o'r fath at ddibenion cuddwyllo, ni chaiff y gwaith o guddwyllo ddechrau nes bod perchennog/gweithredwr y system CCTV wedi cael gweld Awdurdodiad i guddwyllo a'i fod wedi cael ei friffo ar gwmpas y cuddwyllo.

## **11. Beth yw ystyr “deunydd cyfrinachol” yn y cyd-destun hwn?**

Mae pob un o'r canlynol yn dod dan fantell deunydd cyfrinachol:

- Deunydd sy'n destun braint gyfreithiol, e.e. cyfathrebu rhwng ymgynghorydd cyfreithiol a'i gleient.
- Gwybodaeth gyfrinachol bersonol, e.e. gwybodaeth am iechyd neu gwnsela ysbrydol, neu gymorth arall y mae'n ei gael neu y bydd yn ei gael.
- Deunydd newyddiadurol cyfrinachol (sy'n cynnwys gohebiaeth gysylltiedig) sydd wedi'i gael neu ei gaffael at ddibenion newyddiaduraeth ac sy'n destun addewid i'w gadw'n gyfrinachol.

Os oes tebygrwydd y bydd deunydd cyfrinachol yn dod i law o ganlyniad i guddwyllo, ni all neb ond am y Prif Weithredwr, neu yn ei absenoldeb, Cyfreithiwr y Sir, ei awdurdodi.

## **12. Gwneud cais am gymeradwyaeth farnwrol**

Ar ôl i Swyddog Awdurdodi ddod i benderfyniad i awdurdodi cais, rhaid i'r ymgeisydd gysylltu â Llys yr Ynadon i drefnu gwrandawriad. Dylai'r holl waith papur perthnasol fod ar gael i'r Llys ei archwilio, a dylai swyddogion gwblhau ffurflen [4.c.199d](#) – y ffurflen cymeradwyaeth farnwrol. Bydd ynad yn dod i un o'r penderfyniadau canlynol:

- **Cymeradwyo'r cais**

Os cymeradwyir y cais, bydd yr ynad yn cyflwyno ffurflen [4.c.199e](#). Bydd y cais wedi'i gymeradwyo a bydd modd i'r Cyngor ddefnyddio dulliau cuddwyllo ar gyfer yr achos penodol hwnnw.

- **Gwrthod cymeradwyo'r cais**

Ni fydd yr awdurdodiad neu hysbysiad RIPA yn dod i rym ac ni all y Cyngor ddefnyddio dulliau cuddwyllo ar gyfer yr achos penodol hwnnw.

Os gwrthodir cais, dylai'r Cyngor ystyried y rhesymau dros hynny, e.e. mae modd unioni gwall technegol ar y ffurflen heb orfod mynd drwy'r broses awdurdodi fewnol eto. Yna gallai'r Cyngor fod am gyflwyno ail gais am gymeradwyaeth farnwrol cyn i'r camau hynny gael eu cymryd.

- **Gwrthod cymeradwyo'r cais a dileu'r awdurdodiad**

Mae hyn yn berthnasol pan fydd llys yr ynadon yn gwrthod cymeradwyo'r cais, ac yn penderfynu dileu'r awdurdodiad neu'r hysbysiad gwreiddiol. Ni chaiff y llys arfer ei bŵer i ddileu'r awdurdodiad onid oes gan yr ymgeisydd o leiaf 2 ddiwrnod busnes o ddyddiad y gwrthodiad i gyflwyno sylwadau.

## **13. Am ba mor hir y bydd awdurdodiad yn para?**

Fel arfer, daw cymeradwyaeth ysgrifenedig i ben (oni chaiff ei hadnewyddu) ar ddiwedd cyfnod o 3 mis, yn dechrau o'r dyddiad y daeth i rym.



#### **14. Adolygu awdurdodiad/cymeradwyaeth**

Dyletswydd Swyddogion Awdurdodi yw adolygu'r holl amgylchiadau sy'n berthnasol i gais o bryd i'w gilydd. Dylai adolygiadau o'r fath gael eu cynnal o leiaf unwaith y mis. Rhaid cofnodi unrhyw nodiadau sy'n berthnasol i'r adolygiad ar y ffurflen Adolygu sydd ar y Fewnrwyd. Dylai adolygiadau gael eu cynnal yn amlach lle gellid cael gwylidwriaeth ymyrraeth anuniongyrchol ar bobl nas targedir gan yr wylidwriaeth. Rhaid cofnodi adolygiadau gyda ffurflen [4.c.233](#)

Os gwneir penderfyniad i roi'r gorau i wylidwriaeth, rhaid rhoi cyfarwyddyd i'r rhai sy'n cynnal y gwaith i roi'r gorau i wrando, gwyllo neu recordio gweithgareddau'r targed. Dylid hefyd gofnodi'r dyddiad y rhoddwyd y cyfarwyddyd hwn.

D.S. **Nid yw** ynadon yn ystyried adolygiadau mewnol.

#### **15. Adnewyddu Awdurdodiad**

Os yw ymgeisydd am barhau ag ymarfer cuddwyllo at yr un diben, gall wneud cais ysgrifenedig i ymestyn y cyfnod cuddwyllo, gan ddechrau gyda'r diwrnod y byddai'r awdurdodiad gwreiddiol wedi dod i ben oni chafodd ei adnewyddu.

Dylid cofnodi unrhyw gais i adnewyddu awdurdodiad gan ddefnyddio ffurflen Adnewyddu [4.c.200](#) ar y Fewnrwyd yn amlinellu'r canlynol:

- Ai dyma'r cais cyntaf i adnewyddu, neu sawl gwaith y cafodd yr wylidwriaeth ei hadnewyddu;
- Yr un wybodaeth ag a nodwyd yn y cais gwreiddiol;
- Manylion am unrhyw wahaniaeth sylweddol yn y wybodaeth a roddwyd ar gyfer awdurdodiad blaenorol;
- Y rheswm pam fod angen parhau â'r wylidwriaeth;
- Cynnwys a gwerth y wybodaeth a gafwyd drwy wylidwriaeth hyd yma i'r ymchwiliad neu'r ymgyrch;
- Amcan o faint o amser y bydd angen dal ati i wyllo.

Bydd unrhyw gais i adnewyddu'n dilyn proses debyg drwy Lys yr Ynadon.

#### **16. Canslo awdurdodiad**

Rhaid i'r Swyddog Awdurdodi a ddyfarnodd neu a adolygodd/adnewyddodd yr awdurdodiad ddiwethaf ei ganslo os yw'n fodlon nad yw Gwylidwriaeth a Gyfarwyddir yn bodloni meini prawf awdurdodi mwyach. Os nad yw'r Swyddog Awdurdodi hwnnw ar gael, rhaid i Swyddog Awdurdodi arall wneud hyn a sicrhau y daw'r wylidwriaeth i ben. Rhaid canslo gwylidwriaeth gyda ffurflen [4.c.201](#)

D.S. **Nid yw'r** ynadon yn ystyried cansladau

## 17. Pa gofnodion sy'n rhaid eu cadw?

Rhaid cadw'r cofnodion canlynol:

- Copi o'r cais i awdurdodi (4.c.199a)
- Copi o'r awdurdodiad (4.c.199b)
- Copi o'r cais barnwrol (4.c.199d)
- Copi o'r gymeradwyaeth farnwrol (4.c.199e)
- Cofnod o'r cyfnod ar gyfer cynnal yr wyliadwriaeth (gan gynnwys unrhyw gyfnodau o ddiffyg gwylidwriaeth)
- Cofnod o ganlyniad adolygiadau cyfnodol o'r awdurdodiad (4.c.233)
- Copi o unrhyw gais i adnewyddu'r awdurdodiad, ynghyd â dogfennau ategol o'r adeg y gofynnwyd i adnewyddu'r awdurdodiad. (4.c.200)
- Copi o ffurflen canslo'r awdurdodiad (4.c.201)

## 18. Pwy sy'n cadw cofnod?

Cyfreithiwr y Sir yw'r Uwch Swyddog Adrodd, a bydd yn cynnal cofrestr ganolog o gofnodion. Cedwir y Gofrestr Ganolog ar ffurf electronig, a chyfyngir mynediad iddi. Swyddogion Awdurdodi sy'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn rhoi gwybodaeth amserol i alluogi'r gofrestr ganolog i gynnwys yr holl weithgareddau sy'n mynd rhagddynt, ac osgoi dyblygu adnoddau.

Rôl yr Uwch Swyddog Cyfrifol yw goruchwylio cymhwysedd Swyddogion Awdurdodi a'r prosesau sydd ar waith. Er nad yw deddfwriaeth yn eithrio Uwch Swyddog Rheoli rhag bod yn swyddog awdurdodi, mae'n annhebygol o ystyried y diffyg gwrthrychedd a fyddai'n digwydd pe bai'n goruchwylio ei awdurdodiadau ei hun.

## 19. Pwy sy'n gyfrifol am oruchwylio cydymffurfiaeth â RIPA?

Dan y Ddeddf, penodwyd y Prif Gomisiynydd Goruchwylio a'r Comisiynwyr Goruchwylio, ynghyd â'r Cynorthwyr, i oruchwylio'n annibynnol y pwerau sydd yn Rhan 2 y Ddeddf. Byddant yn arolygu'r Cyngor o bryd i'w gilydd i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r Ddeddf. Hefyd, dan y Ddeddf mae modd sefydlu tribiwnlys annibynnol. Mae gan y tribiwnlys bwerau llawn i archwilio a phenderfynu ar unrhyw achos o'r adeg pan fydd rhywun yn cwyno am ymddygiad y Cyngor wrth arfer ei bwerau a chynnal gweithgareddau goruchwylio. Mae'r polisi hefyd yn ffurfio rhan o brotocolau ansawdd y Cyngor, ac felly'n agored i graffu. Rhaid i bob swyddog sy'n ymwneud â gweithgareddau yr effeithir arnynt gan y polisi hwn gydymffurfio â'r canllawiau yn y ddogfen hon.

## 20. Pa ddogfennau cyfeirio sydd ar gael?

Rhaid i'r Cyngor a'r sawl sy'n gweithredu dan Ran 2 y Ddeddf gydymffurfio â'r Codau Ymarfer a gyhoeddwyd dan y Ddeddf. Bydd gan bob Swyddog Awdurdodi gopiau o'r codau hyn. Hefyd, mae'r Cyngor wedi paratoi 4 ffurflen benodol i swyddogion eu defnyddio o ran Gwylidwriaeth a Gyfarwyddir. Mae'r ffurflenni hyn ar gael ar y Fewnrwyd.

Lle amheuir twyll neu lygredd, dylid cyfeirio at strategaeth Gwrth-dwyll a Gwrth-lygredd y Cyngor.

1.CM.121	Issue 4	May 2013	Process Owner: City and County Solicitor	Authorised: Council	Page 10 of 10
----------	---------	----------	--	---------------------	---------------